# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2023

Amser: 13.30 - 15.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13579) yn:

http://senedd.tv/cy/13579

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Carolyn Thomas AS (yn lle Huw Irranca-Davies AS)<br>Alun Davies AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Luke Fletcher AS (yn lle Adam Price AS) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Anfonodd Huw Irranca-Davies ac Adam Price eu hymddiheuriadau. Yn unol â'r cynnig a dderbyniwyd yn y cyfarfod blaenorol, Alun Davies oedd y Cadeirydd dros dro.

Croesawodd y Pwyllgor Carolyn Thomas a Luke Fletcher fel dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)418 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)417 – Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)409 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.2 SL(6)414 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 5.2 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2023

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 6.2 Gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog: Trydydd cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y
Prif Weinidog.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad drafft

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad drafft ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a chytunwyd i ystyried fersiwn drafft pellach yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024.

## 9 Cytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- Cadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol Ardaloedd y tu hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol ("cytundeb BBNJ")
- Cydnabyddiaeth Gilyddol y DU a Phortiwgal at Ddibenion Gyrru a Chyfnewid Trwyddedau

- Ennill Arian drwy Gyflogaeth rhwng y DU a Gwlad Belg Aelodau Penodol o'r Teulu a Gyflogir mewn Cenhadaeth Ddiplomyddol a Swyddi Consylaidd
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr rhwng y DU a Georgia
- Protocol ar Weddillion Ffrwydrol Rhyfel i'r Confensiwn ar Waharddiadau neu Gyfyngiadau ar Ddefnyddio Arfau Confensiynol Penodol y gellir eu hystyried yn Ormodol Niweidiol neu gael Effeithiau Anwahaniaethol

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a thynnu sylw'r pwyllgorau perthnasol yn Senedd Cymru a Senedd y DU at y cytundebau rhyngwladol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau mewn cyfarfod yn y dyfodol.